**EDC-10-99 (p2)**

**Yn cysylltu ag Eitem 3**

**PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD**

**Dyddiad: 1**7 Tachwedd 1999

**Man cyfarfod:** Ystafell Bwyllgor 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Teitl: AMCAN 1: GWEITHREDU**

**Pwrpas**

1. Mae’r cynigion amlinell isod yn dangos beth sydd ar waith. Croesewir sylwadau’r Pwyllgor ar:

- yr ymagwedd tuag at adnabod pecynnau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol fel sylfaen i gyflenwi’r rhaglen Amcan 1
- Maint a chyfansoddiad y Pwyllgor Monitro Rhaglen;
- y cynlluniau ar gyfer Awdurdod Gweithredol y Rhaglen.

Yng ngoleuni sylwadau’r Pwyllgor, bydd y bartneriaeth a’r Cabinet yn ystyried y cynigion.

**Rhagarweiniad**

2. Bydd gweithredu rhaglenni ar ôl 2000 yn hollol wahanol i’r trefniadau presennol :

- bydd ymagwedd strategol tuag at gyflenwi rhaglen yn dod yn lle’r system o rowndiau bidio lluosog ar gyfer prosiectau unigol;
- bydd Awdurdod Gweithredol canolog yn ymuno’n rhagweithiol gyda’r partneriaid ac yn cynnig cefnogaeth ar gyfer datblygu prosiect. Bydd yn rheoli’r materion hynny a ymgymerir gan gwmni WEPE, ond rheolaeth ariannol a thaliadau yn ogystal;
- bydd rhaglenni Ewropeaidd yn cael eu cyfuno gyda pholisïau a rhaglenni’r Cynulliad ei hun;
- bydd y broses reoli yn un dryloyw, yn caniatau mewnbwn gan gyfranogwyr allweddol, yn cynnwys y sector preifat, acy yn hyrwyddo amcanion croestoriadol megis cynaladwyaeth, cyfleoedd cyfartal a chynhwysedd cymdeithasol;
- monitro a gwerthuso effeithiol, fel y gellir mesur cynnydd ac addasu rhaglenni i gwrdd ag anghenion cyfnewidiol;
- trefniadau bob amser yn parhau i gwrdd â gofynion cyfreithiol, rheoli ac atebolrwydd y Cynulliad a’r Comisiwn Ewropeaidd.

Ar draws y Rhaglen, bydd y system yn caniatau i weithredu gael ei arwain ar lefel genedlaethol, rhanbarthol neu leol, yn ôl yr hyn sydd fwyaf priodol a chost effeithiol. Mae SPD Amcan 1 yn nodi'r blaenoriaethau strategol. Bydd y Cyflenwad Rhaglen yn rhoi manylion y gweithredoedd a'r targedau penodol i'w dilyn.

**Sut i gael hyd i'r Cyllid**

3. Bydd yn bosib cael hyd i'r cyllid mewn tair ffordd, trwy:

- becynnau "thema" cenedlaethol
- pecynnau rhanbarthol a rhai lleol
- prosiectau unigol

***- pecynnau thema***

4. Bydd rhain ar draws yr ardal Amcan 1 i gyd, o bosib fel rhan o gynllun Cymru gyfan. Byddant yn tynnu ar fesurau o fewn Blaenoriaeth SPD sengl ac yn caniatau ffocws strategol ar un rhan o'r rhaglen. Mae pecyn yn grðp o brosiectau sydd gyda'i gilydd yn cynnig ymateb cydlynol ac integredig i anghenion neu broblem benodol a bydd ganddynt allbynnau penodol.

5. Bydd un sefydliad yn gyfrifol am wneud cais ffurfiol am y cyllid ac yn gweinyddu'r arian a ddyrennid i'r pecyn. Bydd prosiectau unigol yn yr ardal berthnasol - daearyddol neu thematig - yn cael ei ariannu o'r pecyn. Bydd gofyn i'r sefydliad arweiniol weithio gyda grðp partneriaeth diffiniedig i ddylunio'r rhaglenni ac i'w gweithredu. Bydd hyn yn sicrhau ymagwedd gynhwysol yn ogystal â chydlyniad â mentrau lleol/is-ranbarthol. Mae'n dilyn na fydd y broses yn golygu rhoi monopoli ar weithgareddau arbennig i'r corff a ddewisir i arwain. Er enghraifft, byddai cytundeb ar strategaeth farchnata twristiaeth genedlaethol yn dal i ganiatau datblygu ac ariannu mentrau marchnata rhanbarthol a lleol. Y pwynt pwysig yw fod yna gydlyniad rhwng y ddau.

6. Bydd dewis pa becynau thematig ddylid eu cael yn barod ar gyfer yr ardal Amcan 1, a dyrannu adnoddau ar eu cyfer, yn fater i'w ystyried gan y Pwyllgor Monitro SPD.

***- Pecynnau Rhanbarthol a Llleol***

7. Gellir llunio cynigion ar gyfer "pecynnau" ar gyfer lefel ranbarthol hefyd, er enghraifft ar gyfer cynllun cludiant, neu yn lleol ar draws ystod eang o raglenni gweithgareddau. Disgwylir i strategaethau lleol, yn bennaf, fod yn berthnasol i ardaloedd awdurdodau lleol unigol, er mae'n bosib na fyddai'r cyrff arweiniol eu hunain yn awdurdodau lleol hwyrach, (mewn rhai meysydd mae'n bosib y gallai corff cymunedol neu asiantaeth gymryd yr arweiniad).

8. Byddai'r system yn caniatau i gynllun gweithredu a gymeradwywyd gael ei weithredu dros gyfnod o

flynyddoedd. Byddai’r cynllun yn cynnwys amcangyfrif o gyfanswm y gost, faint o arian partneriaeth sydd ar gael neu y gofynnwyd amdano, a faint o arian y GE sydd ei angen gan bob Mesur Rhaglen.

9. Yr un fath ag ar lefel y Rhaglen, bydd disgwyl i becynnau lleol fod wedi eu gwreiddio mewn partneriaeth effeithiol o ddiddordebau lleol, yn cynnwys y sector preifat. Byddai disgwyl i’r cynigion nodi’r broblem sydd angen sylw, y prosiectau allweddol i fynd i’r afael â nhw a sut y byddai’r gweithredoedd hyn yn ymdrin ag anghenion lleol, yn ogystal â chyfrannu at gyflawni’r amcanion, allbynnau a thargedi a geir yn y SPD. Lle byddo’n briodol, byddai’r cynlluniau yn dangos sut y byddai’r gweithredoedd arfaethedig yn cyflenwi’r pecynnau thematig perthnasol sydd yn barod ar lefel y Rhaglen.

***- Prosiectau Sengl***

10. Fel ar hyn o bryd, bydd yn bosib i brosiectau sengl mawr gael hyd i gyllid hefyd, y tu allan i gwmpas y pecynnau confensiynol, sydd yn gofyn am driniaeth ymroddedig.

***- Pecynnau: Cyrff Atebol***

11. Ar ba lefel gofodol bynnag, bydd pecynnau yn cael eu rheoli gan sefydliadau sydd yn medru cymryd arnynt eu hunain gyfrifoldebau "corff atebol". Bydd yn sicrhau rheolaeth briodol ar y cyllid a chydymffurfio â rheoliadau’r GE a rhai cartref. Rhaid i gyrff atebol fod yn unedau cyfreithiol a rhaid fod ganddynt systemau rheoli a gwerthuso prosiect effeithiol, , gan gymryd i ystyriaeth y criteria dethol a gytunwyd gan y Pwyllgor Monitro a hefyd canllawiau’r Comisiwn ar weithgareddau gwariant cymwys. Bydd rhaid iddynt hefyd wrth systemau rheoli ariannol priodol i gwrdd ââgofynion cronfa strwythurol y GE.

12. Bydd pob corff atebol, mewn cytundeb gyda’r Pwyllgor Monitro, yn cael yr hawl dirprwyo ffurfiol sydd ei angen i weithredu’r pecyn cytunedig mewn cysylltiad â phartneriaid lleol, ynghyd â chyfrifoldeb am gyflawni’r allbynnau a ragwelwyd. Bydd astudiaethau yn dangos sut y gellid ymdrin â materion atebolrwydd ariannol fel rhan o hyn.

13. Bydd y teulu o Gyrff Atebol ynghyd ag awdurdod gweithredol y rhaglen yn ei gwneud yn ddymunol i safoni trefniadaethau dan set gyffredin o gyfarwyddiadau. Bydd yn bwysig sicrhau cysondeb o ran trefniadaethau gwerthuso a phenderfyniadau ar faterion technegol ar draws y cyrff atebol. Rhoddir ystyriaeth hefyd i ddarparu cymorth technegol gan y DG fel ffordd o gyfrannu at gostau’r cyrff perthnasol yn darparu’r lefel o gydlynu rheolaeth ac atebolrwydd a allai hyn oll ei olygu. Bydd cyfleoedd hyfforddi priodol ar gael hefyd.

14. Ceir enghraift o sut i ymdrin â phecynnau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn Atodiad 1.

**Sut y bydd y Rhaglen yn cael ei rheoli**

15. Awdurdod Gweithredol y Rhaglen yn asiantaeth weithredol fydd yn atebol i’r Cynulliad, gyda Phrif

Weithredwr yn bennaeth arni, wedi ei apwyntio drwy gystadleuaeth agored, penodiad Uwch Wasanaeth Sifil y bydd y rheolau arferol yn berthnasol iddo. Bydd staff y sefydliad yn dod o blith staff presennol Awdurdod Gweithredol Rhaglen Ewropeaidd Cymru (AGRhEC) ac o blith staff y Cynulliad sydd yn gyfrifol am daliadau a swyddogaethau eraill dan y rhaglenni cyfredol. Bydd angen staff ychwanegol, o gofio graddfa fwy o lawer y rhaglenni Cronfeydd Strwythurol ar ôl 2000.

16. Fel sydd yn briodol i gorff gweithredol o fewn y Cynulliad, bydd Ysgrifennydd y Cynulliad dros Faterion Economaidd yn ateb yn y Cynulliad dros waith y sefydliad, ac yn cymeradwyo'i gynlluniau corfforaethol a gweithredol. Bydd yn cyflwyno cyfrifon ar wahan, fydd yn cael eu harchwilio gan y Pwyllgor Datblygu Economaidd a'r Pwyllgor Archwilio. Bydd hefyd yn cynhyrchu Adroddiad Blynyddol, fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cynulliad.

17. Bydd cyfrifoldebau'r Awdurdod Gweithredol yn cynnwys:-

- Datblygu rhaglen, i baratoi gwybodaeth, arweiniad a chyhoeddusrwydd, i gynorthwyo, annog a symbylu ffurfio prosiectau a phecynnau gweithredu;
- Rheoli rhaglen, yn cynnwys y broses gymhwyso a gwerthuso, a threfnu i werthuso a chymeradwyo pecynnau a phrosiectau a chyflwyno cyngor ar y materion hyn i'r Pwyllgor Monitro;
- Gweithio gyda'r bartneriaeth i sefydlu'r canllawiau sydd eu hangen er mwyn gweithredu pecynnau a phrosiectau rhanbarthol a lleol;
- Rhoi cymorth ysgrifenyddol i'r Pwyllgorau Monitro ac i'r grwpiau ymgynghorol;
- Cydberthynas gyda'r cleient, yn cynnwys cydgysylltu â'r cyrff atebol a'r sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol;
- Hyrwyddo integreiddio polisïau a rhaglenni Ewropeaidd a rhai cartref;
- Rheolaeth ariannol ar y rhaglen, yn cynnwys taliadau rheoli cyllideb, denu cyllid Ewropeaidd a sicrhau cysondeb mewn rheoli cronfeydd;
- Monitro prosiectau/pecynnau: gwirio cynnydd ar weithredoedd a gefnogwyd er mwyn cwrdd ag amcanion a nodwyd a thargedau cytunedig;
- Gwerthuso rhaglenni
- cyngor ar bolisi i'r Cynulliad ar faterion Cronfeydd Strwythurol, cyfranogi mewn gweithgorau Llywodraeth y DG, ymdrin â'r Comisiwn a.y.b.

18. Cyfansoddiad yr awdurdod gweithredol fydd:-

- Timau seiliedig ar ardal i weithredu fel pwynt ffocws ar gyfer cydlynu gyda phartneriaethau rhanbarthol a lleol yn y pedwar rhanbarth economaidd yng Nghymru. Yn ychwanegol fe fydd staff fydd yn gyfrifol yn benodol am ddarpau ymagwedd gydlynol tuag at broblemau Cymru wledig ac ar gyfer Cymoedd De Cymru;
- Tîm yn gweithredu fel dolen gyswllt gyda chyrff atebol ar gyfer y pecynnau thematig cenedlaethol;
- Uned yn cynnig ffynhonnell o arbenigedd ar reoli prosiectau mawr. Gallai hwn hefyd fod â

chyfrifoldeb ehangach am gydgysylltu â’r sector preifat.

- Staff ymroddedig ar gyfer hyrwyddo materion trawsdoriadol sydd yn sylfaen i raglenni Ewropeaidd, yn cynnwys materion cyfleoedd cyfartal;
- Tîm monitro a gwerthuso ar wahan i roi cyngor annibynnol ar berfformiad a chyraeddiadau rhaglenni.

**PwyllgorauMonitro**

19. Pwyllgorau Monitro yw’r prif beirianwaith ar gyfer gynnwys partneriaid yn y rhaglenni Cronfeydd Strwythurol, sydd yn un o ofynion allweddol Rheoliadau Cyngor Ewrop. Mae dyfyniadau perthnasol o’r Rheoliadau i’w gweld yn Atodiad 2.

20. Roedd y Tasglu Ewropeaidd yn argymell Pwyllgorau Monitro bychain, fyddai’n medru cymryd golwg strategol ar eu cyfrifoldebau. . O ganlyniad, gwnaed cyfeiriad ffafriol at fodel aelodaeth lle dewisir trydydd ran o’r aelodaeth o’r llywodraeth, trydydd ran o’r sector preifat a thrydydd ran "arall". Hefyd mae angen osgoi, cyn belled ag y mae’n bosib ac yn briodol, unrhyw wrthdaro o ran diddordeb. Bydd rôl y Pwyllgor Monitro yn cael ei gefnogi a’i wasanaethu gan yr Awdurdod Gweithredol a bydd angen i’r Pwyllgor ei hun fod yn fodlon ar drefniadaethau, safonau a pherfformiad yr Awdurdod Gweithredol wrth iddo gyflenwi amcanion y Rhaglen.

21. Bydd swyddogion yn argymell Pwyllgor Monitro Amcan 1 gyda Chadeirydd a 15 aelod, fel y gwelir yn Atodiad 3. Mae cynllun y broses lawn i’w weld yn Atodiad 4.

22. Mae cyfansoddiad o’r fath yn eithrio amryw o grwpiau sydd â diddordeb ac asiantaethau cyhoeddus megis Bwrdd Creoso Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru. Mae dadl dros ddweud y byddai’n ddefnyddiol cynnwys y rhain a chyrff eraill. Fodd bynnag, os yw’r Pwyllgor llawn i’w gadw i faint rhesymol y gellir ei reoli, mae achos cryf dros ddadlau o blaid y niferoedd a argymhellwyd a dibynnu ar y sefydliadau hynny sydd yn medru siarad gydag awdurdod ar draw ystod eang o ddiddordebau sydd yn debygol o fod yn berthnasol i’r Pwyllgor. Croesewir sylwadau’r Pwyllgor.

23. Argymhellir, lle bynnag y bo’n ymarferol, fod pwyllgorau partneriaethau a grwpiau eraill a awdurdodir gan y Pwyllgor Monitro yn dilyn yr un trywydd "un rhan o dair" ag a osodir ar gyfer y Pwyllgor Monitro ei hun.

24. Wrth benderfynu ar aelodaeth y Pwyllgor Monitro, dylai’r Cynulliad hyrwyddo cyfranogiad cytbwys gan ddynion a merched. Bwriedir gwahodd pob serfydliad i restru, dyweder, tri ymgeisydd ar gyfer aelodaeth, fyddai’n cynnwys dirprwyon, gyda gwybodaeth berthnasol am bob un a enwebir. Yna byddai Ysgrifennydd y Cynulliad yn penderfynu ar restr derfynol o aelodau mewn ffordd fydd yn hyrwyddo cyfranogiad cytbwys. Dylid ystyried a ddylai’r ffordd hon dalu sylw i ddymuniad y Cynulliad i hyrwyddo mwy o gyfranogiad gan grwpiau eraill megis yr anabl a’r rhai o leiafrifoedd ethnig.

**Y CAMAU NESAF**

25. Trwy'r Pwyllgor Monitro cysgodol, bydd gwaith yn mynd yn ei flaen i baratoi Cyflenwi Rhaglen Amcan 1, drafftio'r arweiniad manwl a'r dealltwriaethau sydd eu hangen i gefnogi'r Rhaglen, ac ar ba delerau y gellid datblygu system o becynnau strategol. Bydd swyddogion hefyd yn datblygu cyfres o drafodaethau gyda darpar Gyrff Atebol ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, fel cam cyntaf i baratoi cynigion penodol.

Adran Materion Ewropeaidd

**Atodiad 1**

**YMAGWEDD EGLURHAOL TUAG AT BECYNNAU CENEDLAETHOL, RHANBARTHOL A LLEOL**

Mae'r canlynol yn egluro'r pynciau y gallai pecynnau cenedlaethol neu rai rhaglen fod yn gymwys ar eu cyfer, yn ogystal â cforff arweiniol posibl. Fel y nodwyd yn y papur, nid yw hyn yn awgrymu bod y meysydd perthnasol yn gyfyngedig i'r cyrff arweiniol yn unig.

**Blaenoriaeth 1**

| **Pecyn** | **Corff Rheoli** |
|---|---|
| Entrepreneriaeth | Grðp Llywio Entrepreneriaeth |
| Cefnogaeth/Cymorth Busnes | Consortia Cyswllt Busnes |
| Newyddbeth<br><br><br><br><br>Cymwysiadau ICT | Cynllun Technoleg Rhanbarthol<br><br>Cymdeithas Wybodaeth Cymru<br><br>Partneriaeth Preifat/Cyhoeddus |
| Cyllid Busnes | Cronfa Bartneriaeth Preifat Cyhoeddus<br><br>RSA |

| | |
|---|---|
| Rhaglenni hyfforddi dwys i gwrdd ag anghenion cyflogwyr; datblygu rheolaeth (mewn partneriaeth â Chyngor Rheoli Cymru) | CETW (o Ebrill 2001) ond i gychwyn consortiwm o Add. U, Add.B, a Chynghorau Hyfforddi a Menter |
| Datblygu pecyn Twristiaeth yn Ngorllewin Cymru a’r Cymoedd | Bwrdd Croeso Cymru |
| Datblygu safleoedd ac eiddo | Awdurdod Datblygu Cymru |

**Blaenoriaeth 2**

| **Pecyn** | **Corff Rheoli** |
|---|---|
| Datblygu Is-Fframwaith a Gwasanaethau Cludiant | Y Cynulliad Cenedlaethol |

Yn fras, bydd gan y Cynulliad rôl arweiniol mewn perthynas â datblygu system gefnffyrdd a thros lwybrau lleol strategol lle mae’n ofynnol cael hyd i Grant Cludiant y Cynulliad. Bydd gan y cynulliad gyfrifoldeb hefyd am faterion sydd yn ymwneud â llwybrau rheilffyrdd strategol ac am rwydwaith bysus Cymru gyfan.

Gellid disgwyl i bartneriaethau rhanbarthol a rhai lleol chwarae rôl gref dan y Flaenoriaeth hon, mewn perthynas â gwasanaethau cymudwyr a nwyddau, dros fentrau cludiant cyfun, terminalau nwyddau a.y.b.

Gall prosiectau unigol ddod ymlaen o sefydliadau’r sector preifat. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i’r flaenroiaeth hon o gofio bod cymaint o is-fframwaith economiadd yn nwylo’r sector preifat yn nhermau rhelffyrdd, porthladdoedd, ynni a thelegyfathrebu. Mae’r mesur is-fframwaith twristiaeth hefyd yn fwy tebygol o gael ei gyflenwi drwy brosiectau unwaith am byth a ddaw i’r amlwg o’r sector preifat, o gyrff mawr y sector gwirfoddol neu lywodraeth leol.

**Blaenoriaeth 3**

| Pecyn | Corff Rheoli |
|---|---|
| Adfywio Cymunedau Cynhwysedd Adeiladu a'r economi cymdeithasol | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) |

Cyflenwir y flaenoriaeth hon yn bennaf drwy becynnau lleol. Fodd bynnag, mae'r CGGC wedi cynnig fframwaith cefnogol i Amcan 1 cyfan ar gyfer cyrff o'r sector gwirfoddol, ar ran y sector gwirfoddol yn gyffredinol. Bydd angen integreiddio datblygu rhaglenni gyda rhaglenni'r Cynulliad ei hun.

**Blaenoriaeth 4**

| Pecyn | Corff Rheoli |
|---|---|
| Gweithredu ar draws y rhaglen i dalu sylw i ddiweithdra a segurdod economaidd tymor hir, yn cynnwys "Y Fargen Newydd Plws" | Y Gwasanaeth Cyflogaeth |
| ▪ Dilyn i fyny o Sgiliau'r Dyfodol Cymru, yn cynnwys sefydlu Uned Ymchwil y Farchnad Sgiliau a Llafur;<br>▪ Gwella'r rhaglenni sgiliau pobl ifanc ac oedolion ar draws y Rhaglen (e.e. Prentisiaethau Modern a Hyfforddiannau Cenedlaethol);<br>▪ Datblygu sgiliau generig y gellir eu trosglwyddo;<br>▪ Rhaglenni i gwrdd â'r angen am sgiliau uwch ac i ymdrin â'r diffyg sgiliau, yn cynnwys | CETW (o Ebrill 2001) ond i gychwyn consortiwm dan arweiniad Add.U, Add.B a TECs |

| | |
|---|---|
| hyfforddiant sgiliau dwys yn gysylltiedig ag anghenion cyflogwyr;<br>▪ Datblygu systemau i gefnogi Dysgu Gydol Oes (e.e. UFI a ILA);<br>▪ Datblygu sgiliau o fewn SME drwy ILA;<br>▪ rhaglenni cefnogi cyflogi graddedigion<br>▪ Datblygu is-fframwaith dysgu (sector preifat a'r sector cyhoeddus) | |
| Gwella arweiniad i bobl ddiwaith a rhai ar gyflogau isel | Y Gwasanaethau Gyrfaoedd |
| | |

Bydd gwaith mewn pecynnau lleol yn ategu hyn, yn arbennig mewn mynd i'r afael ag eithriad cymdeithasol, a phrosiectau unigol gan sefydliadau yn y sector preifat neu wirfoddol. Mae Mesur 6 yn debygol o gael ei gyflenwi gan brosiectau penodol dan arweiniad y Sector Gwirfoddol.

**Blaenoriaeth 5**

| **Pecyn** | **Corff Rheoli** |
|---|---|
| Rhaglenni Amaeth-Bwydydd | Awdurdod Datblygu Cymru |

Bydd gwaith mewn pecynnau lleol yn ategu hyn, a phrosiectau unigol gan sefydliadau yn y sector preifat. Ymgynghorir gydag asiantaethau megis CCGCynglþn â threfniadau ar gyfer gweithredu Mesur 2.

## ATODIAD 2

**Dyfyniad o Erthygl 35 y Rheoliadau Cyffredinol ar y Cronfeydd Strwythurol (Rheoliad Cyngor y GE Rhif 1260/99).**

35(3). Rhaid i'r Pwyllgor Monitro fodloni ei hun ynghylch effeithlonrwydd ac ansawdd y dull o weithredu cymorth. I'r perwyl hwnnw:

a. yn ôl Erthygl 15, rhaid iddo gadarnhau neu addasu cynnwys y rhaglen, yn cynnwys y dangosyddion ffisegol ac ariannol a ddefnyddir i fonitro'r cymorth. Rhaid cael ei gymeradwyaeth cyn y gellir gwneud unrhyw addasiadau pellach;

(b) Bydd yn ystyried ac yn cymeradwyo'r criteria ar gyfer dewis y gweithgareddau a ariannir dan bob mesur o fewn chwe mis i'r cymorth gael ei gymeradwyo;

c. o bryd i'w gilydd bydd yn arolygu'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni amcanion penodol y cymorth;

(ch) bydd yn archwilio canlyniadau'r gweithredu, yn arbennig cyrraedd y targedi a osodwyd ar gyfer y gwahanol fesurau a'r gwerthusiad canol tymor y cyfeirir ato yn Erthygl 42

(d) bydd yn ystyried ac yn cymeradwyo'r adroddiadau gweithredu blynyddol a'r adroddiad terfynol cyn iddynt gael eu hanfon ymlaen i'r Comisiwn

dd. bydd yn ystyried ac yn cymeradwyo unrhyw gynnig i ddiwygio cynnwys penderfyniad y Comisiwn ar gyfraniad y Gronfa;

Fe all beth bynnag gynnig i'r awdurdod rheoli unrhyw addasiad neu adolygiad ar y cymorth sydd yn debygol o'i gwneud yn bosib cyrraedd yr Amcanion y cyfeirir atynt yn Erthygl 1, neu i wella rheolaeth y cymorth, yn cynnwys rheolaeth ariannol. Bydd rhaid i unrhyw addasiad i'r cymorth fod yn unol ag Erthygl 34(3).

## ATODIAD 3

**PWYLLGOR MONITRO AR GYFER AMCAN 1**

**AELODAETH BOSIBL**

Cadeirydd . Y Cynulliad Cenedlaethol

Aelodau

**Y Llywodraeth (5)**

(1) Y Cynulliad Cenedlaethol

(2) Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

(3) Awdurdod Datblygu Cymru

(4) Cyngor Cefn Gwlad Cymru

**Partneriaid Cymdeithasol (5)**

(1) CBI Cymru

(2) Ffederasiwn Busnesau Bychain

(3) Siambr Cymru

(4) UCA ac UAC(NFU & FUW)

(5) TUC Cymru

**Eraill (5)**

(1) Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

(2) Cynrychiolydd Cyfleoedd Cyfartal

(3) Cynrychiolydd Addysg Uwch

(4) Cynrychiolydd Addysg Bellach

(5) Cynrychiolydd Menter a Hyfforddiant

**Y Cynulliad Cenedlaethol**

**Pwyllgor Datblygu Economaidd**

**Ysgrifennydd y Cynulliad**

- Penodi Pwyllgor Monitro
- Atebol i Awdurdod Gweithredol y Rhaglen
- Asesu cynnydd ar weithredu
- Adroddiadau rheolaidd i Bwyllgor y Cynulliad

- Adroddiad blynyddol i Awdurdod Gweithredol y Rhaglen

**Pwyllgor Monitro**

Arolygu’r Rhaglen

Cytuno ar ddewis pecynnau

Awdurdodi Cyrff Atebol

Penderfynu ar ymatebion i’r Pecynnau

Gosod safonau gweithredol ar gyfer Awdurdod Gweithredol y Rhaglen

**Awdurdod Gweithredol y Rhaglen**

Gweithio gyda’r Cyrff Atebol

a’r sector preifat i baratoi

pecynnau a phrosiectau

gwerthuso cyflwyniadau

gwneud argymhellion i’r Pwyllgor Monitro

gwneud taliadau a monitro cynnydd

**Cyrff Atebol**

**Cenedlaethol - Rhanbarthol - Lleol**

- Cydlynu gydag Awdurdod Gweithredol y Rhaglen
- Sefydlu partneriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol
- Cyflwyno rhaglenni a dderbyniwyd i’r Awdurdod Gweithredol
- Gweithredu pecynnau y cytunwyd arnynt mewn cydweithrediad â’r bartneriaeth